

Creu Senedd i Gymru: Cwestiynau cyffredin

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 12 Chwefror 2018 ac yn dod i ben ar 6 Ebrill 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddYDyfodol

Mae modd cael copïau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch hefyd, gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen, Braille, print bras, tâp sain neu gopi caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@CynulliadCymru](https://twitter.com/CynulliadCymru)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifriol. Mae'n rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

Y cefndir.....	3
Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?.....	3
Sut caf i ddweud fy nweud ar y cynigion?.....	4
Faint o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad?	5
Beth mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud, a pham mae'n bwysig?	5
A allai Aelodau'r Cynulliad weithio'n wahanol, neu gyfarfod am fwy o amser?.....	6
Faint fydd mwy o Aelodau'r Cynulliad yn ei gostio?	7
Sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad?	9
Pam ydych chi'n ystyried newid y system etholiadol?	9
Pam ymgynghori ar dair system etholiadol bosibl yn unig?	9
Pam mae'r Panel wedi gwneud argymhellion ar gyfer cwotâu rhyw? Sut y byddent yn gweithio?	10
Pam mae'r Panel wedi argymhell rhannu swyddi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad? Sut y byddai'n gweithio?	10
Pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?.....	11
A yw pobl ifanc 16 oed yn ddigon aeddfed i bleidleisio?.....	12
Ble arall y gall pobl bleidleisio yn 16 oed?.....	12
Pam ydych chi'n ymgynghori ar gynigion i ganiatáu i bob preswlydd cyfreithiol yng Nghymru a/neu garcharorion yng Nghymru bleidleisio?.....	12
Beth sy'n digwydd nesaf?	14
A fyddai angen deddfwriaeth i wneud unrhyw newidiadau?	14
Beth sy'n digwydd nesaf, a sut y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf?	14
Pryd y byddai unrhyw newidiadau yn digwydd?.....	14

Y cefndir

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Mae *Deddf Cymru 2017* yn nodi dechrau cyfnod newydd o ddatganoli yng Nghymru. Mae'n rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros feysydd polisi newydd, gan gynnwys trefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad ei hun.

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arwain y gwaith i archwilio sut y gellid defnyddio'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* yn ymwneud â threfniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad i wneud y sefydliad yn ddeddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch, gynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae diwygiad cyfansoddiadol sylfaenol o'r fath a gynigir yn yr ymgynghoriad yn gofyn am gonsensws gwleidyddol eang yn y Cynulliad a ledled Cymru. Yn yr ymgynghoriad hwn, gwahoddir pobl o bob cwr o Gymru i ddweud eu dweud. Mae'r Comisiwn yn awyddus i glywed gan y cyhoedd, aelodau'r gymdeithas wleidyddol a dinesig, academyddion, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill am yr hyn y maent am i'w deddfwrfa fod.

Yn ogystal ag argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ynghylch maint y Cynulliad, sut y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys diwygiadau posibl i bwy all bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, pwy sy'n cael bod yn Aelod o'r Cynulliad, a newidiadau i'r gyfraith yn ymwneud â gweinyddiaeth etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad.

Sut caf i ddweud fy nweud ar y cynnigion?

Mae gwahanol ffyrdd i chi rannu eich barn â Chomisiwn y Cynulliad am y diwygiadau posibl:

- Ewch i ficrowefan yr ymgynghoriad (www.seneddydyfodol.cymru) a llenwi arolwg ar-lein. Gallwch ddewis ateb y cwestiynau am bob cynnig, ynteu dim ond y rhai sydd o ddiddordeb i chi.
- Ewch i wefan yr ymgynghoriad (www.cynulliad.cymru/seneddydyfodol), lle gwelwch y ddogfen ymgynghori lawn a fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori. Ar ôl llenwi'r ffurflen ymgynghori, gallwch ei hanfon at ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru neu AssemblyCommission.Consultations@assembly.wales, neu gallwch ei phostio atom yn Rhadbost, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn para o 12 Chwefror 2018 tan 6 Ebrill 2018.

Faint o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad?

Beth mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud, a pham mae'n bwysig?

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli buddiannau eu hetholwyr a'u cymunedau. Maent yn craffu ar bolisi, gwariant, trethi a deddfwriaeth y Llywodraeth i wella canlyniadau i bobl Cymru, ac maent hefyd yn gwneud deddfau i Gymru. Mae Aelodau'n ymgymryd â gwaith achos ar gyfer unigolion neu grwpiau, ac yn ymgymryd â gwaith ymgyrchu lleol a chenedlaethol. Maent yn weithredol yn yr etholaethau a'r rhanbarthau maent yn eu cynrychioli. Yn benodol, mae cyfnodau toriad yn rhoi cyfle nad yw ar gael cymaint yn ystod tymor y Cynulliad i Aelodau fynd i ddigwyddiadau ac ymgysylltu â'r gymuned leol.

Yn ogystal, mae rhai Aelodau'r Cynulliad hefyd yn cyflawni rolau arbenigol, gan gynnwys Prif Weinidog, Ysgrifenyddion y Cabinet, Cwnsler Cyffredinol, Llywydd, Dirprwy Lywydd, cadeiryddion pwyllgorau a Chomisiynwyr y Cynulliad.

Pam mae'r Panel Arbenigol yn credu bod angen mwy o Aelodau?

Sefydlwyd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i ystyried nifer o faterion, gan gynnwys faint o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad i gyflawni ei rôl. Mae adroddiad y Panel yn nodi manylion ei drafodaethau. Yn gryno, dyma'r safbwyntiau a ystyriwyd:

- rôl a phwerau newidiol y Cynulliad;
- y camau a gymerwyd, neu y gellid eu cymryd, i gynyddu capasiti'r Cynulliad heb fwy o Aelodau;
- y rolau cymhleth ac amrywiol y mae Aelodau yn eu cyflawni;
- cyfrifoldeb yr Aelodau am graffu deddfwriaethol ac ariannol a chraffu ar bolisi, a goruchwyllo Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru;
- capasiti system pwyllgorau'r Cynulliad; a
- sut mae'r Cynulliad yn cymharu â deddfwrfeydd cyfatebol mewn mannau eraill yn y DU a ledled y byd.

Dywed y Panel fod ei holl waith dadansoddi yn arwain at yr un casgliad: sef mai rhwng 80 a 90 o Aelodau yw maint priodol i'r Cynulliad ar gyfer y dyfodol. Daeth i'r casgliad y byddai cynyddu'r Cynulliad i faint o fewn yr ystod honno yn arwain at fanteision gwerthfawr o ran capasiti'r sefydliad a byddai manteision cyfatebol i bobl Cymru hefyd.

O fewn yr ystod hon, mae'r Panel yn nodi y byddai gwahaniaeth amlwg rhwng y ddau begwn. Mae'n awgrymu y byddai ffigur sy'n nes at 80 yn sicr yn cryfhau'r sefydliad ac yn gwella'i allu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Ar y pegwn arall, fodd bynnag, mae'r Panel yn dadlau y byddai mwy o fanteision, gan y byddai'n sicrhau gwahaniaeth ystyrlon yng ngallu llawer o'r Aelodau i arbenigo, a byddai budd yn sgil hynny o ran y gwaith craffu a chynrychioli. Yn ogystal, mae'n awgrymu y byddai ffigur ar y pegwn uchaf hefyd yn osgoi'r risg y byddai angen ailystyried mater capasiti yn y dyfodol agos, pe bai cyfrifoldebau'r Cynulliad yn cynyddu fwy fyth.

Casglodd y Panel hefyd fod rôl graffu a throsolwg y Cynulliad, o'i chyflawni'n effeithiol, yn effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl yng Nghymru trwy wella ansawdd deddfwriaeth Cymru, a thrwy ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Noda y gallai hyd yn oed welliannau bach yn y broses o graffu ar wariant a pholisi Llywodraeth Cymru ddod â budd sylweddol i drethdalwyr.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

A allai Aelodau'r Cynulliad weithio'n wahanol, neu gyfarfod am fwy o amser?

Yn ddiweddar, gwnaeth Comisiwn McCormick ar Ddiwygio Seneddol argymhellion ar sut y gallai Senedd yr Alban gynyddu ei chapasiti a gweithio'n fwy effeithiol. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Panel Arbenigol, yn ogystal â chymau eraill a gymerwyd neu y gellid eu cymryd i gynyddu capasiti.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynyddu nifer yr oriau y mae'n cyfarfod yn y dydd, nifer y dyddiau y mae'n cyfarfod yn yr wythnos, a nifer yr wythnosau y mae'n cyfarfod yn y flwyddyn. Gallai cynnydd pellach mewn amser cyfarfod ffurfiol gael effaith niweidiol ar yr amser sydd ar gael i'r Aelodau ymgymryd ag ymchwil, darllen a pharatoi ar gyfer busnes pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn.

Yn ychwanegol, mae ein system o gynrychiolaeth ddemocrataidd yn dibynnu ar y cysylltiad agos rhwng Aelodau a'r pleidleiswyr y maent yn eu gwasanaethu. Yn ei adroddiad, mae'r Panel Arbenigol yn manylu ar rolau amrywiol Aelodau, ac elfen bwysig ohonynt yw'r gwaith y maent yn ei wneud y tu allan i Fae Caerdydd yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau. Er enghraifft, mynd i ddigwyddiadau, cynnal ymgyrchoedd a chryfhau eu dealltwriaeth o'r pwysau sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol. Byddai ymestyn wythnos waith y Cynulliad yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer y math hwn o weithgarwch, ac ar gyfer gweithio ar y gwaith achos sy'n cael ei wneud gan Aelodau ar ran etholwyr unigol a grwpiau cymunedol.

Ystyriodd y Panel Arbenigol y camau a gymerwyd, neu y gellid eu cymryd, i gynyddu capasiti'r Cynulliad, ond daethpwyd i'r casgliad nad ydynt yn gwneud iawn, ac na allant wneud iawn, am y broblem sylfaenol, sef yr amser hynod gyfyngedig sydd ar gael i ddim ond 60 Aelod etholedig gyflawni eu rolau hanfodol.

Faint fydd mwy o Aelodau'r Cynulliad yn ei gostio?

Cafodd y Panel Arbenigol amcangyfrifon gan Gomisiwn y Cynulliad o'r costau rheolaidd blynyddol ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â Chynulliad a chanddo 80 neu 90 Aelod. Mae'r amcangyfrifon hyn yn amrywio o tua £6.6 miliwn (ar gyfer 20 Aelod ychwanegol) i £9.6 miliwn y flwyddyn (am 30 ychwanegol).

Er cyd-destun, yn 2017-18, cyllideb flynyddol y Comisiwn oedd £53.7 miliwn. Mae'r costau rheolaidd ychwanegol felly yn cynrychioli 12 y cant o'r gyllideb ar gyfer 20 Aelod ychwanegol a 18 y cant o'r gyllideb ar gyfer 30 Aelod ychwanegol.

At hynny, byddai rhai costau untro, er enghraifft costau sy'n gysylltiedig ag addasu'r Siambr a swyddfeydd yr Aelodau. Yr amcangyfrif yw y byddai'r rhain oddeutu £2.4 miliwn ar gyfer 20 Aelod ychwanegol a £3.3 miliwn ar gyfer 30 Aelod ychwanegol.

Mae'r amcangyfrifon cost, o reidrwydd, yn seiliedig ar y gwasanaethau a'r system o gymorth ariannol sydd ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn yn y gorffennol wedi'u gwneud, o leiaf yn rhannol, ar sail gwneud iawn am ddiffyg capasiti'r Aelodau mewn Cynulliad o ddim ond 60 Aelod.

Dylai'r costau gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach cynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru ac effaith gadarnhaol rôl craffu a goruchwylio'r Cynulliad, gan wella ansawdd deddfwriaeth Cymru a dylanwadu ar bolisi

Llywodraeth Cymru. Gallai hyd yn oed welliannau bach yn y broses o graffu ar wariant Llywodraeth Cymru ddod â budd sylweddol i drethdalwyr trwy sicrhau deddfwriaeth, polisi a phenderfyniadau gwell.

Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai Comisiwn y Cynulliad a'r Bwrdd Taliadau ystyried yn ofalus sut y gellid addasu cyfanswm y cymorth staffio, y gwasanaethau a'r adnoddau ariannol a ddarperir i'r Aelodau pe byddai'r Cynulliad yn fwy o faint, fel bod y gost o weithredu'r argymhellion yn cael ei chadw i'r lleiafswm posibl.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn, ac os bydd maint y Cynulliad yn cynyddu, mae wedi ymrwymo i sicrhau bod y costau cysylltiedig yn cael eu cadw i'r lleiafswm posibl.

Sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad?

Pam ydych chi'n ystyried newid y system etholiadol?

Casgliad y Panel Arbenigol oedd, wrth i ddatganoli yng Nghymru ddechrau ar y cam nesaf, na all y Cynulliad barhau â dim ond 60 Aelod heb beryglu ei allu i gyflawni dros y bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Bydd *Deddf Cymru 2017* yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar y Cynulliad i benderfynu ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen arno i gyflawni ei waith.

Os bydd nifer yr Aelodau Cynulliad yn newid, yna bydd angen i'r system etholiadol newid, gan fod y system gyfredol wedi cael ei chynllunio yn benodol ar gyfer ethol 60 Aelod. Felly, gofynnwyd i'r Panel Arbenigol hefyd nodi sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad o 2021 ymlaen. Awgrymodd fod newid maint y Cynulliad yn gyfle hefyd i ddiwygio ac adfywio'r system etholiadol fel bod y Cynulliad yn adlewyrchu'n well y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

Pam ymgynghori ar dair system etholiadol bosibl yn unig?

Gofynnwyd i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad nodi sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad. Ystyriodd ystod eang o systemau etholiadol, er enghraifft: y cyntaf i'r felin, aml-aelod cyntaf i'r felin, un rhestr genedlaethol, cynrychiolaeth gyfrannol gyda rhestr gaeedig, cynrychiolaeth gyfrannol gyda rhestr agored, y bleidlais amgen, a systemau mwyafrifol aelodau cymysg a chyfrannol cymysg aelodau deuol.

Arfarnodd y Panel y systemau hyn yn erbyn fframwaith o 10 egwyddor: atebolrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraeth; cymesuredd; atebolrwydd Aelodau; ethol Aelodau sydd â statws cyfatebol; amrywiaeth; dewis pleidleiswyr; mandad cyfatebol fel bod gan bleidleisiau tua'r un gwerth; ffiniau ystyrion; symlirwydd; a chynaliadwyedd a'r gallu i addasu.

Yn amlwg, ni all yr un system etholiadol fodloni pob un o'r egwyddorion hyn yn llawn. Gwrthododd y Panel, felly, y systemau nad oedd yn hyderus y gallent ddarparu'n ddigonol yn erbyn yr egwyddorion hyn a gweithredu'n effeithiol yng Nghymru o 2021 ymlaen.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

Pam mae'r Panel wedi gwneud argymhellion ar gyfer cwotâu rhyw? Sut y byddent yn gweithio?

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol enw da mewn perthynas â chynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau. Er enghraifft, yn 2003, roedd y Cynulliad ymysg y cyrff seneddol cyntaf yn y byd i gael cynrychiolaeth gyfartal ar gyfer menywod a dynion. Ystyriodd y Panel Arbenigol sut y gellid diogelu'r enw da hwn.

Ar hyn o bryd, mae 42 y cant o'r Aelodau yn fenywod. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd rhyngwladol o 23 y cant, ond mae diwygio'r system etholiadol yn rhoi cyfle i amddiffyn yr hyn y mae Cymru wedi'i gyflawni ym maes cynrychiolaeth y rhywiau.

Amlinellodd y Panel Arbenigol sut y gallai cwotâu rhyw weithio mewn perthynas ag unrhyw un o'n systemau etholiadol arfaethedig, trwy ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gyflwyno rhestr cytbwys o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

Pam mae'r Panel wedi argymhell rhannu swyddi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad? Sut y byddai'n gweithio?

Dywedodd y Panel Arbenigol y gallai trefniant rhannu swyddi alluogi i bobl o lawer o sefyllfaoedd cymdeithasol ac o bob cefndir a hunaniaeth ddod yn Aelodau'r Cynulliad. Awgrymodd y byddai trefniant o'r fath yn unol ag arfer gweithio modern yn y rhan fwyaf o broffesiynau eraill. Yn benodol, dadleuodd y Panel y gallai caniatáu rhannu swyddi helpu i gael gwared ar rwystrau a allai fel arall atal pobl ag anabledau neu gyfrifoldebau gofalu rhag ymgeisio mewn etholiad. Gallai hefyd alluogi pobl i sefyll etholiad a chynnal eu sgiliau proffesiynol yr un pryd, neu helpu Aelodau Cynulliad hŷn i barhau i weithio'n rhan-amser yn hwyrach yn eu hoes.

Yn ôl y Panel Arbenigol, yr egwyddor arweiniol ar gyfer rhannu swyddi yw y dylid trin partneriaid rhannu swyddi fel pe baent yn un person. Mae hyn yn golygu na ddylai Aelodau'r Cynulliad sy'n rhannu swyddi greu unrhyw gostau ychwanegol i gostau un Aelod Cynulliad.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

Pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Pam ydych chi'n ystyried newid yr oedran pleidleisio isaf?

Gofynnwyd i'r Panel Arbenigol ystyried yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen. Ar ôl ystyried y cyd-destun yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal â'r dystiolaeth a'r ymchwil sydd ar gael, daeth i'r casgliad y gallai gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16 fod yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc os ceir, law yn llaw â hynny, addysg wleidyddol a dinasyddiaeth briodol, effeithiol a diduedd.

Mewn etholiadau mwy amlwg, megis etholiad y Cynulliad, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn fwy tebygol o fwrw pleidlais a bod pleidleiswyr yn fwy tebygol o gymryd rhan. Mae'r Panel yn awgrymu, felly, pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru, y dylid gwneud hynny gyntaf ar gyfer etholiad y Cynulliad yn hytrach nag etholiadau lleol, sydd i ddigwydd yn 2022.

Tynnodd y Panel sylw hefyd at gynnig Llywodraeth Cymru i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Dywedwyd y byddai gwneud hynny'n creu anghysondeb, a byddai'n creu materion gweinyddol a gwleidyddol ychwanegol, pe na bai'r oedran pleidleisio hefyd yn cael ei ostwng ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Panel Arbenigol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol.

A yw pobl ifanc 16 oed yn ddigon aeddfed i bleidleisio?

Ystyriodd y Panel Arbenigol yr oedran y mae pobl ifanc yn ymgymryd â gwahanol hawliau a chyfrifoldebau. Daeth i'r casgliad bod diffyg cysondeb a chydlynid yn y trothwyon oedran sy'n berthnasol ac nad oes un oedran penodol mewn gwirionedd pryd y bydd person ifanc yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau a hawliau sydd gan oedolyn o ddinesydd.

Hefyd, ystyriodd y Panel a oedd gan bobl ifanc 16 oed y wybodaeth wleidyddol, yr aeddfedrwydd a'r annibyniaeth meddwl i bleidleisio. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol, yn sgil etholiadau lleol 2017 yn yr Alban, fod pobl ifanc 16 ac 17 oed wedi ei chael yn haws cael gafael ar wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais na phobl rhwng 18 a 24 oed, a'u bod yn llai tebygol o'i chael yn anodd llenwi eu papur pleidleisio.

Rhwng popeth, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad y byddai gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16 o 2021 ymlaen yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc.

Ble arall y gall pobl bleidleisio yn 16 oed?

Yn yr Alban, Awstria, Ynys Manaw, Jersey a Guernsey gall pobl ifanc bleidleisio yn 16 oed. Roedd pobl ifanc 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn refferendwm annibyniaeth yr Alban a gall pobl ifanc 16 oed bleidleisio mewn etholiadau lleol yn yr Alban ac yn etholiadau Senedd yr Alban. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn deddfu i leihau'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o 2022.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Malta ei bod yn fwriadu gostwng yr oedran pleidleisio isaf yno i 16.

Pam ydych chi'n ymgynghori ar gynigion i ganiatáu i bob preswlydd cyfreithiol yng Nghymru a/neu garcharorion yng Nghymru bleidleisio?

Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn caniatáu i'r un bobl bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ag sy'n pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol. Byddai unrhyw newidiadau i'r gyfraith o ran pwy a gaiff bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol hefyd yn gymwys i etholfraint y Cynulliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu deddfu i newid etholfraint llywodraeth leol, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16, ac

ymestyn yr hawl i bleidleisio i bob preswlydd cyfreithiol yng Nghymru ac i garcharorion yng Nghymru sydd i gael eu rhyddhau yn ystod y cyfnod yr etholir y cyngor ar ei gyfer.

Awgrymodd y Panel Arbenigol, fel mater o egwyddor, y dylai'r Cynulliad benderfynu ar ei etholfraint ei hun drwy gyfrwng deddfwriaeth. Gall fod rhesymau da dros y gwahaniaeth yn yr hawl i bleidleisio mewn gwahanol etholiadau, ond mae hefyd fanteision posibl o gysoni'r hawl i bleidleisio mewn gwahanol etholiadau. Er enghraifft, gallai fod yn haws ei gweinyddu ac yn symlach gan bleidleiswyr. Mae Comisiwn y Cynulliad felly yn ymgynghori ynghylch a ddylai'r newidiadau arfaethedig hyn fod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad.

Beth sy'n digwydd nesaf?

A fyddai angen deddfwriaeth i wneud unrhyw newidiadau?

Byddai angen i'r Cynulliad basio Bil i weithredu'r diwygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad. Bydd y pwerau i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath yn cael eu rhoi i'r Cynulliad ar 1 Ebrill 2018 drwy *Ddeddf Cymru 2017*.

Byddai unrhyw Fil o'r fath yn ddarostyngedig i brosesau craffu deddfwriaethol y Cynulliad. Hefyd, byddai angen uwchfwafrif ar y Bil yn ei gyfnod deddfwriaethol terfynol. Mae hyn yn golygu y byddai angen i o leiaf 40 o Aelodau bleidleisio o blaid y Bil.

Beth sy'n digwydd nesaf, a sut y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf?

Ar ôl i'r ymgynghoriad gau ar 6 Ebrill, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl ymatebion a fydd wedi dod i law. Yna bydd yn penderfynu ynghylch amseriad a chynnwys unrhyw ddeddfwriaeth.

Bydd unrhyw Fil y mae'r Comisiwn yn ei gyflwyno yn destun craffu gan y Cynulliad.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am waith diwygio'r Cynulliad ar gael trwy:

- ddilyn y Cynulliad ar gyfryngau cymdeithasol yn [@CynulliadCymru](#)
- dilyn y Llywydd ar gyfryngau cymdeithasol yn [@yLlywydd](#)
- tanysgrifio i gael y diweddaraf am waith [diwygio'r Cynulliad trwy e-bost](#).

Pryd y byddai unrhyw newidiadau yn digwydd?

Gofynnwyd i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gyhoeddi ei adroddiad erbyn hydref 2017. Roedd hynny fel y gellid gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2021, ar yr amod y sicrhewr y gefnogaeth wleidyddol angenrheidiol. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i ddeddfwriaeth gael ei phasio erbyn haf 2019, er mwyn gwneud is-ddeddfwriaeth ddilynol, fel y gall y Comisiwn Etholiadol weithredu newidiadau mewn pryd ar gyfer etholiad 2021, ac i sicrhau bod gan bleidiau gwleidyddol amser o ddethol ymgeiswyr.

